**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 6:PEIRIANNAU HUNANWASANAETH LLYFRGELLOEDD

## PENDERFYNIAD

Cymeradwyo'r cais am £74,412 o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer prynu a mewnosod 9 peiriant hunan wasanaeth yn y 9 prif lyfrgell.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Bu i'r Cabinet fabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau 2016-2020" ar gyfer y Gwasanaeth Llyfrgell, ac mae'r strategaeth hon yn arwain ar newid yn narpariaeth llyfrgelloedd drwy'r awdurdod sef i symud o ddarparu 17 llyfrgell i gynnal 9 prif lyfrgell a chefnogi 4 llyfrgell gymunedol. O ganlyniad i hyn bydd defnydd uwch o'r prif lyfrgelloedd gyda'r un lefel staffio.

Drwy brynu'r peiriannau hunanwasanaeth mae'n gyfle i wella'r gwasanaeth i drigolion a gwneud gwell defnydd o amser staff i'w gwasanaethu.
.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cynghorydd Gareth Thomas gan fod ganddo berthynas yn gweithio i'r Gwasanaeth Llyfrgell. Roedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 7 :CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 - CEISIADAU AM ADNODDAU YCHWANEGOL

## PENDERFYNIAD

i. Ymrwymo £121,255 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio , ar gyfer ymestyn y cynllun 'Cydymdrechu yn erbyn tlodi' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.
ii. Ymrwymo £117,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio, ar gyfer ymestyn y cynllun 'Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.
iii. Ymrwymo £23,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio ar gyfer ymestyn Cynllun Datblygu Gwynedd Wledig ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.
iv. Ymrwymo £42,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio, ar gyfer ymestyn y cynllun ' Digwyddiadau Proffil Uchel a Strategol' ar gyfer 2017-18 i wireddu ymrwymiadau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2017-18.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mabwysiadodd y Cyngor Llawn 'Cynllun y Cyngor 2017-18' ar yr 2il o Fawrth 2017. Adnabuwyd y cynlluniau uchod fel cynlluniau oedd angen adnoddau ychwanegol er mwyn parhau i fedru cyflawni eu hymrwymiadau os y'i hymestynnir am flwyddyn ychwanegol.

'Roedd yna elfen o gyllideb gwreiddiol ar ôl ar gyfer y cynlluniau unigol ond 'roedd angen ychwanegiad er mwyn gallu parhau a'r gwaith yn 2017/18.

Cafodd y y cynlluniau ei cynnwys yn rhan o'r Cynllun y Cyngor yn amodol ar gytundeb gan y Cabinet i'w hariannu.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 8:CYNLLUN Y CYNGOR 2017/18 P9 POBL IFANC A'R DERFNYDD O'R GYMRAEG YN GYMDEITHASOL

## PENDERFYNIAD

Ymrwymo £40,000 o gyllid ychwanegol o'r Gronfa Drawsffurfio er mwyn gweithredu Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn arwain at gynnydd pellach mewn defnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas y cynllun yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant prosiect Siarter iaith sydd wedi ei weithredu yn ysgolion cynradd Gwynedd, sydd bellach wedi ei ledaenu yn genedlaethol. Datblygwyd Strategaeth Iaith Uwchradd i roi ariweniad clir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc yn yr uwchradd.

Mae'r cynlluniau yma wedi ei cynnwys yng Nghynllun y Cyngor ac angen adnoddau ychwanegol er mwyn gwireddu amcanion y prosiect.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 9:CYNLLUN ASEDAU'R CYNGOR 2009/10 I 2018/19

## PENDERFYNIAD

i. Nodi canlyniad terfynol tebygol y Cynllun Asedau 10 mlynedd
ii. Cadarnhau nad oes bellach angen £15m ar gyfer Gofal Cymdeithasol fel rhan o Gynllun newydd fydd yn cael ei baratoi gan y Cyngor newydd
iii. Dynodi £200,000 adnodd na fydd bellach ei angen ar gyfer ariannu benthyca heb gefnogaeth i gwrdd a'r bwlch yn ein harbedion ar gyfer 2016/17
iv. Defnyddio £800,000 o'r adnodd hefyd i atgyfnerthu'r gyllideb cynnal a chadw o 1 Ebrill 2017 gan adael y gweddill i'r Cyngor newydd ei ystyried wrth drafod arbedion a chynllun asedau'r dyfodol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn 2009, yn dilyn asesiad cynhwysfawr o anghenion gwariant cyfalaf y Cyngor, ac yn wyneb y ffaith nad oedd adnoddau'r cyngor yn caniatáu i gyfarch holl anghenion gwariant cyfalaf, cynhaliwyd cyfres o weithdai gydag aelodau'r Cyngor i sefydlu blaenoriaethau cyfalaf am y 10 mlynedd i ddod. Yn dilyn hyn sefydlwyd Cynllun Asedau, ac fe'i mabwysiadwyd gan y Cyngor yn Hydref 2009.

2018-19 fydd blwyddyn olaf y cynllun presennol a bydd disgwyl i'r Cyngor newydd sefydlu strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2018-19 - 27/28 yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi beth sydd wedi digwydd dros oes y cynllun a'r penderfyniadau yn cau pen y mwdwl ar rai agweddau o'r cynllun gwreiddiol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a’r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i’r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 10 :ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG

## PENDERFYNIAD

i. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.
ii. Cymeradwyo i ail broffilio gwireddu cynllun Clwb Brecwast Plant Ysgolion Cynradd, gan fu llithriad yn yr amser gwireddu. Bydd angen llithro £41,700 i'w wireddu yn 2018/19

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol. Sicrhau rheolaeth briodol drwy ail broffilio'r arbedion

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 11:ADRODDIAD PERFFORMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD

## PENDERFYNIAD

i. Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad

ii. Cymeradwywyd ail broffilio'r Cynllun Arbedion yng nghyllideb y Crwner (DaCh13) i 2018/19 yn hytrach 2017/18 fel y bwriad gwreiddiol a amlinellir ym mhwynt 6.2 yn yr adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol a thryloyw mae gofyn i Aelod Cabinet adrodd ar berfformiad y maes y mae'n gyfrifol amdano i'r Cabinet yn gyfnodol. Sicrhau rheolaeth briodol drwy ail broffilio'r arbedion

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet: 28/03/2017** | |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | **12/04/2017** |

## PWNC

Eitem 13 :TIR YN LLANRUG

## PENDERFYNIAD

Dirprwyo hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Addysg i brynu llain o dir yn Llanrug ac yn sgil y pryniant, rheolaeth briodol o'r safle, yn unol ar adroddiad.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae cyfle wedi codi i brynu safle yn Llanrug at ddibennion addysg all gyfranu at ehangu opsiynnau ar gyfer cynllunio addysg i'r dyfodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Cafwyd datganiad o fuddiant gan yr aelod lleol ond nid oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd a'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod.

Roedd yr aelod lleol yn bresennol yn y cyfarfod i gyfleu ei farn.